

Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2024

Hysbysiad o gyfarfod:

Cyngor Sir

**Dydd Iau, 12fed Rhagfyr, 2024, 2.00 pm,
Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**

AGENDA

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cyhoeddiad y Cadeirydd	1 - 2
4.	Deisebau sydd wedi eu derbyn	
5.	I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Hydref 2024	3 - 12
6.	Adroddiadau i'r Cyngor:	
6.1.	CYNGOR PENCAMPWR DIM DATGOEDWIGO	13 - 30
6.2.	SIARTER AR GYFER TEULUOEDD SYDD WEDI PROFI PROFEDIGAETH DRWY TRASIEDI GYHOEDDUS (Siarter Hillsborough)	31 - 34
6.3.	Penodiadau i Gyrrff Allanol	35 - 36
7.	Cynigion i'r Cyngor:	
7.1.	Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Jan Butler	
	Mae'r Cyngor hwn yn: <ul style="list-style-type: none">• Diolch i'r gweithwyr brys, gwirfoddolwyr a phawb a gefnogodd	

drigolion Sir Fynwy yn ystod Storm Bert

- Yn mynegi pryder y bydd diffyg cynnal a chadw ar seilwaith draenio'r Sir wedi gwaethygu'r perygl o lifogydd
- Yn galw ar y Cyngor i ailasesu ei brosesau i liniaru llifogydd a gwerthuso maint a chyllid y gweithlu sy'n ymroddedig i gynnal a chadw draeniau a rheoli'r amgylchedd

7.2. Cyflwynwyd gan y Cyngorydd Sir Rachel Buckler

Mae'r Cyngor hwn yn:

- Gwerthfawrogi'n fawr rôl ffermwyr Sir Fynwy wrth gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, darparu sicrwydd bwyd a gweithredu fel gwarcheidwaid ein hamgylchedd naturiol.
- Yn gresynu at newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i dreth etifeddiant, yn benodol dileu'r Rhyddhad Eiddo Amaethyddol, sy'n bygwth dyfodol ffermydd teuluol yn Sir Fynwy.
- Yn cytuno i weithio gydag undebau ffermio lleol a chynghorau eraill Cymru i berswadio Llywodraeth y DU i amddiffyn ein cymunedau gwledig a pheidio â lladd ffermydd teuluol.

8. Cwestiynau'r Aelodau:

8.1. Cyngorydd Sir Steven Garratt i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf, os gwelwch yn dda, am y gwaharddiad arbrofol rhag gyrru (ac eithrio mynediad) ar y rhan o Lôn Goldwire, Trefynwy o'r gyffordd â Heol Somerset i'r gyffordd â Stryd Drybridge?

8.2. Cyngorydd Sir Martin Newell i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Yn sgil y llifogydd ar Heol Wonastow fis diwethaf, pryd y bydd yr Aelod Cabinet yn rhoi'r gorau i gynlluniau i gau Lôn Goldwire yn rhannol?

8.3. Cyngorydd Sir Emma Bryn i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod Traphont Penallt (a elwir hefyd yn Bont Gwy yn Redbrook) yn parhau i fod ar agor i ddefnyddwyr am y dyfodol rhagweladwy, o ystyried y ffaith bod y bont droed sydd yno, a adeiladwyd tua 1955 bellach ymhell y tu hwnt i'w hyd oes ddisgwyliedig ac yn dangos arwyddion difrifol o bydredd. Mae'r Flwyddyn nesaf yn nodi 50 mlynedd ers taith gerdded Dyffryn Gwy ac felly mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y cerddwyr.

8.4. Cyngorydd Sir Emma Bryn i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Yn dilyn y newyddion na fydd atgyweiriadau helaeth Pont Gwy (Wyesham/Mayhill) yn digwydd tan o leiaf gwanwyn 2025, a all yr Aelod Cabinet roi gwybod i ni beth fydd yn cael ei wneud i sicrhau y bydd y tyllau rhychog sy'n pla ar wyneb y bont yn digwydd. eu trwsio i safon a fydd yn para tan hynny.

8.5. Cyngorydd Sir Emma Bryn i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A all yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf, os gwelwch yn dda, ar gynnydd pont gerdded ac olwynion Wyesham/Mayhill i Drefynwy?

8.6. Cyngorydd Sir Tony Eason i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Mae llwybr troed 376/8 ar hyd Nant Neddern, Cil-y-coed, wedi bod ar gau ers ymhell dros 500 diwrnod. Mae argymhelliad gan y Pwyllgor Gwaith Iechyd a Diogelwch bod yr iard ailgylchu gyfagos wedi creu risg i'r cyhoedd. A all yr Aelod Cabinet roi diweddariad cadarn i mi ynghylch pryd y bydd y broblem hon yn cael ei datrys, ac y caiff y llwybr troed ei ailagor?

8.7. Cyngorydd Sir Meirion Howells i'r Cyngorydd Sir Ian Chandler, Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch

A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sy'n cael ei ddarparu i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai ifanc sy'n gadael gofal yn ystod cyfnod y Nadolig? Yn benodol, pa fentrau neu fesurau sydd ar waith i sicrhau eu llesiant a'u cynhwysiant yn ystod y cyfnod hwn, a sut y gallwn ni, fel Aelodau etholedig, ac aelodau'r cyhoedd, gymryd rhan drwy gyfrannu anrhegion neu fathau eraill o gymorth i wneud eu Nadolig yn fwy disglair?

8.8. Cyngorydd Sir Paul Pavia i'r Cyngorydd Sir Ben Callard, Aelod Cabinet Adnoddau

A allai'r Aelod Cabinet ddarparu datganiad ar ragdybiaethau'r weinyddiaeth ynglŷn â'r cynnydd yng nghyfradd Yswiriant Gwladol cyflogwyr a'i effaith ar gyllideb y Cyngor?

8.9. Cyngorydd Sir Richard John i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

Pa drafodaethau y mae'r Cyngor wedi'u cael gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid ynghylch gwella diogelwch ffyrdd ar gyffordd yr A40 rhwng Rhaglan a Thregare?

8.10. Cyngorydd Sir Jayne McKenna i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A wnaiff yr Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i roi wyneb newydd ar yr R46, y brif ffordd drwy Llanfihangel Troddi?

8.11. Cyngorydd Sir Jane Lucas i'r Cyngorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd

A wnaiff yr Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Bont Vauxhall/Inglis?

<p>8.12.</p>	<p>Cynghorydd Sir Laura Wright i'r Cynghorydd Sir Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd Dirprwy Arweinydd</p> <p>Yn dilyn y tân enbyd yng nghanol tref y Fenni, a all yr Aelod Cabinet roi diweddariad ar yr hyn y mae'r Cyngor Sir yn ei wneud i gefnogi'r gymuned leol a busnesau yn y dyfodol os gwelwch yn dda?</p>	
<p>8.13.</p>	<p>Cynghorydd Sir Laura Wright i'r Cynghorydd Sir Angela Sandles, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu</p> <p>Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd yn y Fenni. A wnaiff yr Aelod Cabinet ddweud wrthym beth mae'r Cyngor Sir yn ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem hon?</p>	
<p>8.14.</p>	<p>Cynghorydd Sir Richard John i'r Cynghorydd Sir Paul Griffiths, Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd Dirprwy Arweinydd</p> <p>Pa gamau y mae'r weinyddiaeth yn eu cymryd i gefnogi busnesau'r Stryd Fawr?</p>	
<p>8.15.</p>	<p>Cynghorydd Sir Tony Kear i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd</p> <p>A fydddech cystal â rhoi gwybod i'r Aelod Cabinet am fanylion cyfredol peiriannau ysgubwyr ffyrdd sy'n cael eu defnyddio yn Sir Fynwy, sut mae eu defnydd yn cael ei leoli a'i reoli ar draws y Sir ac yn arbennig y dyraniad i Ward Llanbadog a Brynbuga.</p>	
<p>8.16.</p>	<p>Cynghorydd Sir Tony Kear i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd</p> <p>A allai'r Aelod Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni atgyweirio ffyrdd / cynnydd a blaenoriaethau ôl-groniad yn Sir Fynwy, gan gyfeirio'n benodol a chyd-destun at yr arwynebau sy'n dirywio yn fy Ward ar Heol Cas-gwent, Stryd Maryport a Stryd Prth-y-carn.</p>	

Paul Matthews
Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

Rachel Buckler
Laura Wright
Tony Kear
Catrin Maby
Jan Butler
Ian Chandler
Sara Burch
Alistair Neill
Su McConnel
Mary Ann Brocklesby
Fay Bromfield
Jane Lucas
Emma Bryn
Peter Strong
Meirion Howells
Paul Griffiths
Jackie Strong
Rachel Garrick
Maria Stevens
Steven Garratt
Angela Sandles
Ben Callard
John Crook
Tomos Davies
Dale Rooke
Sue Riley
Jayne McKenna
Jill Bond
Louise Brown
Lisa Dymock
Tony Easson
Christopher Edwards
Martyn Groucutt
Simon Howarth
Richard John
David Jones
Penny Jones
Malcolm Lane
Phil Murphy
Paul Pavia
Maureen Powell
Frances Taylor
Tudor Thomas
Armand Watts
Ann Webb

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Siarad yn gyhoeddus yn y Cyngor Llawn

Gall aelodau'r cyhoedd gofrestru i ofyn cwestiwn gan aelodau'r cabinet mewn cyfarfodydd llawn y cyngor. Nid oes cyfleuster i'r cyhoedd gofrestru i siarad fel rhan o'r ddatl am eitem ar yr agenda mewn cyfarfodydd cyngor llawn. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer pob cwestiwn mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yw 15 munud.

Ni chaniateir mwy nag un cwestiwn fesul holwr mewn cyfarfod llawn o'r cyngor a gofynnir cwestiynau yn y drefn y cânt eu cyflwyno.

Er mwyn cyflwyno cwestiwn mewn cyfarfod llawn o'r cyngor, rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig neu drwy e-bost i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd heb fod yn hwyrach na hanner nos, tri diwrnod gwaith cyn diwrnod y cyfarfod, gyda phob cwestiwn yn rhoi enw a chyfeiriad yr holwr.

Gellir gwrthod cwestiynau os;

- Nad yw'n ymwneud â mater y mae gan y cyngor gyfrifoldeb amdano neu sy'n effeithio ar y sir
- Yw'n ddifennol, yn wamal neu'n sarhaus
- Yw'n gwestiwn sydd i raddau helaeth yr un peth ag a ofynnwyd mewn cyfarfod o'r cyngor llawn yn y 6 mis diwethaf
- Yw'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig

Pan na all person ofyn y cwestiwn i'r cyngor llawn yn bersonol, caiff y cadeirydd benderfynu darllen y cwestiwn yn uchel ar ei ran, cyfarwyddo y dylid darparu ymateb ysgrifenedig neu ddewis peidio ag ymdrin â'r cwestiwn yn ei absenoldeb. Bydd gan y rhai sy'n gofyn cwestiwn yn bersonol hawl i un cwestiwn atodol y mae'n rhaid iddo godi o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb. Gall y cadeirydd wrthod cwestiwn atodol ar y seiliau hyn.

Bydd unrhyw gwestiynau na ellir delio â nhw yn y cyfarfod oherwydd y terfyn amser ar gyfer cwestiynau cyhoeddus yn cael eu hateb drwy ymateb ysgrifenedig.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tîm. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

Caredigrwydd – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.